O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 809 (Cy. 143)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M48 (Pont Hafren, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2025

Gwnaed	*6 Gorffennaf 2025*
Yn dod i rym	*8 Gorffennaf 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o draffordd yr M48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar y darnau penodedig o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn er mwyn gwneud gwaith ar y ffordd neu gerllaw iddi ac oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd neu o ddifrod difrifol i'r ffordd, na ellir ei briodoli i'r gwaith hwnnw.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i fodolaeth llwybrau eraill ar gyfer y traffig y bydd y Gorchymyn hwn yn effeithio arno yn unol ag adran 14(3) o'r Ddeddf.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M48 (Pont Hafren, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Gorffennaf 2025.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, neu at ddibenion gwaith a chynnal a chadw neu a awdurdodir gan swyddog heddlu mewn lifrai, swyddog traffig neu berson penodedig a chan weithredwyr gwasanaethau bysiau neu goetsys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 8 Gorffennaf 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw Traffordd yr M48 Llundain i Dde Cymru;

mae i "person penodedig" yr ystyr a roddir i "appointed person" yn adran 23 o Ddeddf Pontydd Hafren 1992(**1**).

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, sy'n pwyso dros 7.5 tunnell, nac ychwaith beri neu ganiatáu cerbyd o'r fath, ar y darnau o draffordd yr M48 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Gorffennaf 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

(**1**) 1992 p. 3.

YR ATODLEN

Y gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt wrth ymyl trwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 hyd at bwynt 47 o fetrau i'r dwyrain o'r uniad mecanyddol ym mhen gorllewinol Pont Hafren.

Y ffordd ymuno tua'r dwyrain o Gylchfan Newhouse wrth Gyffordd 2 hyd at y lle y mae'n uno â phrif gerbytffordd yr M48.